# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; David Smith, Aelod Arweiniol dros Barthau Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Cynghorwyr Ray Bartley, Bill Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Gwyneth Kensler a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Cyllid ac Asedau (PM); Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (JW); Addysg (KE); Refeniw a Budd-daliadau (RU); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Datblygiad Busnes ac Economaidd (TB); Rheolwr y Rhaglen Moderneiddio Addysg (JC), a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

## TEYRNGED - CYNGHORYDD MARGARET MCCARROLL

Talodd yr Arweinydd deyrnged i'r Cynghorydd Margaret McCarroll a fu farw ar 4 Ionawr ar ôl salwch byr. Cyfeiriodd at ymrwymiad y Cynghorydd McCarroll a’i chyfraniad gwerthfawr fel cynghorydd yn cynrychioli ward De Orllewin y Rhyl, a chyfleodd cydymdeimlad y Cyngor at ei theulu, gan ddweud y byddai hi'n golled enfawr i gydweithwyr Sir Ddinbych. Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams ei gydymdeimlad hefyd i'r Arweinydd, a oedd wedi colli ei fam-yng-nghyfraith yn ddiweddar. Safodd yr Aelodau a'r swyddogion mewn tawelwch i dalu teyrnged.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Y Cynghorydd Bobby Feeley - Personol - Eitem 5 ar y Rhaglen - Llywodraethwr Stryd y Rhos
Y Cynghorydd David Smith – Personol - Eitem 5 ar y Rhaglen - Ŵyr ym Mhen Barras
Y Cynghorydd Huw Williams – Personol - Eitem 5 ar y Rhaglen - Plentyn ym Mhen Barras

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts – Personol – Eitem 5 ar y Rhaglen - Llywodraethwr AALl Pen Barras / rhiant

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2014.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

## 5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - YSGOLION CYNRADD ARDAL RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion sy'n codi o adolygiad ardal Rhuthun, ac argymell i'r Cyngor gymeradwyo buddsoddiad ar gyfer tri phrosiect ysgol gynradd yn yr ardal.

Roedd Aelodau'r Cabinet wedi ymgyfarwyddo gyda phob ysgol sy'n destun adolygiad ardal Rhuthun, ac roeddent yn gwbl ymwybodol o anghenion a gofynion pob un o'r ysgolion hynny. Pwysleisiwyd nad oedd penderfyniad wedi'i wneud ynghylch y cynigion, a gofynnwyd am gymeradwyaeth i gychwyn y broses ymgynghori. O ran yr ymrwymiad ariannol i brosiectau ysgol, dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson, yn dilyn adolygiad o'r achosion busnes, bod y Grŵp Buddsoddi Strategol wedi argymell cymeradwyo. Eglurodd nad oedd y prosiectau yn rhan o'r prosiectau a ariennir gan Ysgolion yr 21ain Ganrif, ond roedd gan y Cyngor ddigon o gyfalaf mewnol i'w cyflawni. Ychwanegodd y Cynghorydd Eryl Williams, er nad oedd unrhyw ddibyniaeth ar gyllid allanol, roedd yn obeithiol y gellid diogelu cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Roedd y rhesymeg y tu ôl i ad-drefnu ysgolion cynradd yn Rhuthun wedi cael ei nodi yn yr adroddiad, a thrafododd y Cabinet gyda swyddogion ynghylch argymhellion yr adroddiad, er mwyn symud ymlaen i gam nesaf y cynigion trefniadaeth ysgolion. Roedd prif bwyntiau trafod ynghylch yr argymhellion yn cynnwys -

- **Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol wirfoddol a reolir newydd Categori 2**

  Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am y gefnogaeth gyffredinol i'r ysgol ardal gymryd lle'r ddwy ysgol, yn enwedig o ystyried cyflwr yr adeiladau presennol. Y mater dadleuol yn y cynnig hwn oedd categoreiddio iaith yr ysgol newydd, ond y bwriad oedd peidio â dechrau trafodaeth ar hyn o bryd, ond i ddechrau ymgynghori ac adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol. Nodwyd bod rhieni a phartïon eraill â diddordeb eisoes wedi codi pryderon, a sicrhawyd y byddai'r holl faterion a godwyd yn cael eu trafod a'u hystyried yn ofalus yn ystod y

broses ymgynghori cyn gwneud penderfyniad. Roedd yr Arweinydd wedi cyfarfod cynrychiolwyr o'r ddwy ysgol, a siaradodd am y teimladau cryf o gwmpas y mater categoreiddio a'r gwahanol safbwyntiau a geir. Roedd yn awyddus i ysgol newydd fod o'r budd gorau i'r plant a'r ardal yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at yr adolygiad o gategoreiddio iaith ysgolion y sir, a rhoddodd y swyddogion sicrwydd bod categoreiddio pob ysgol yn cael ei fonitro trwy'r Grŵp Strategol Cymraeg mewn Addysg. Teimlai'r Cynghorydd Meirick Davies yn gryf y dylai'r ymgynghoriad gynnwys agor ysgol Categori 1 newydd yn hytrach na Chategori 2. Derbyniodd y Cynghorydd Eryl Williams y farn honno, ond ymatebodd y byddai'r dadleuon o ran categoreiddio yr un fath, a byddai'r holl faterion yn cael eu hystyried yn ystod y broses ymgynghori. Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai disgyblion dan anfantais oherwydd y newid dilynol i'r categoreiddio iaith, ac amlygodd y swyddogion y ffaith bod disgyblion ffrwd Gymraeg mewn ysgolion Categori 2 yn gorfod cyflawni'r un canlyniadau â disgyblion mewn ysgolion Categori 1.

- **Ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Rhewl gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Pen Barras neu Stryd y Rhos**

  Ailadroddwyd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig yn seiliedig ar gynaliadwyedd tymor hir Ysgol Rhewl. Mynegwyd rhai amheuon ynghylch a allai'r ysgol arfaethedig yng Nglasdir ddal disgyblion ychwanegol o ystyried y nifer arfaethedig o leoedd ysgol. Eglurodd swyddogion y cyfrifiadau ar gyfer nifer y disgyblion ynghyd ag ystyriaethau eraill gan gynnwys lleoedd dros ben - roedd hyblygrwydd o fewn y broses ar hyn o bryd a fyddai'n caniatáu ar gyfer diwygio rhagamcanion disgyblion, yn dibynnu ar ganlyniadau eraill fel y rhai sy'n ymwneud ag Ysgol Rhewl ac Ysgol Llanbedr, a fyddai'n caniatáu i'r ysgol gael maint priodol ar gyfer yr ardal. Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Williams ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Merfyn Parry, a rhannodd safbwyntiau Llywodraethwyr Ysgol Rhewl a fyddai'n ymgyrchu yn erbyn cau ysgolion. Dywedodd y swyddogion bod y Pennaeth wedi cael gwybod yn anffurfiol cyn cyfarfod y Cabinet, a dylid codi pob mater arall fel rhan o'r broses ymgynghori. O ran lleoedd dros ben, ni fyddai'n briodol defnyddio meini prawf gwahanol i brosiectau ysgol nad ydynt yn destun arian ysgolion yr 21ain ganrif. Amlygodd y Cynghorydd Martyn Holland bwysigrwydd cyfathrebu, ac adroddodd y swyddogion ar hyd a lled yr ymgynghoriad yn hyn o beth er mwyn darparu proses agored a thryloyw.

- **Argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r achosion busnes a dyraniad cyfalaf ar gyfer tri phrosiect ysgol gynradd yn ardal Rhuthun**

  Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams bwysigrwydd dyrannu cyllid penodol ar y cam hwn er mwyn rhoi mwy o sicrwydd ac adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i'r prosiectau adeiladu ysgolion os yw'r cynigion yn cael eu cymeradwyo.

  **(I) Safle Glasdir (adleoli o Stryd y Rhys/ Ysgol Pen Barras) -** Eglurodd y Swyddogion y cynnig ar gyfer dwy ysgol ar safle a rennir yng Nglasdir a rhoddwyd adroddiad am eu trafodaethau gyda chynrychiolwyr ysgol ynglŷn â'u gofynion, a fyddai'n cael eu diwallu cyn belled ag y bo modd, o ystyried cyfyngiadau ariannol y prosiect ac sy'n cael sylw fel rhan o'r cam dylunio manwl. Croesawodd yr Aelodau Lleol y cynigion ar gyfer y ddwy ysgol ar safle Glasdir,

ond codasant nifer o faterion sydd angen eu hystyried, yn bennaf o gwmpas y defnydd o gyfleusterau a rennir a rheoli traffig, gan dynnu sylw at y ffaith bod cyfraniad gan gynrychiolwyr ysgolion yn hollbwysig wrth ystyried eu gofynion yn y dyfodol. Fe wnaeth y swyddogion gydnabod bod dyluniad cywir o'r adeilad yn hanfodol, gan roi adroddiad am waith a wnaed i reoli disgwyliadau a gofynion yr ysgolion i sicrhau effeithlonrwydd er budd y ddwy ysgol o fewn y cyfyngiadau ariannol ac amser ar gyfer y prosiect. Byddai unrhyw dderbyniadau cyfalaf a gynhyrchir ar ôl cwblhau'r prosiectau ysgol yn cael eu cadw'n gorfforaethol. Rhoddwyd sicrwydd pellach y byddai nifer y lleoedd ysgol yn cael eu diwygio'n briodol yn dilyn canlyniadau adolygiadau eraill yn ymwneud ag Ysgol Rhewl ac Ysgol Llanbedr. Derbyniwyd hefyd bod caniatâd cynllunio ar gyfer safle Glasdir wedi dod i ben, ond roedd swyddogion mewn cysylltiad â Swyddogion Cynllunio ac yn hyderus na fyddai cael caniatâd cynllunio yn broblem gyda'r dyluniad cywir.

**(Ii) Ysgol Carreg Emlyn -** Hysbyswyd yr Aelodau bod yr adroddiad yn cynnwys amserlenni dangosol ar gyfer adeilad arfaethedig yr ysgol newydd, ond roedd yn debygol y gallai'r prosiect ddechrau yn gynt os cânt gymeradwyaeth gan nad oedd gofyniad i gyflwyno hysbysiad statudol ynghylch y cynnig.

**(Iii) Ysgol Ardal Llanfair a Phentrecelyn** – Roedd y cynnig ar gyfer adeilad ysgol newydd ar gyfer ardal Llanfair a Phentrecelyn wedi cael ei drafod fel rhan o'r argymhelliad cyntaf.

Wrth gynnig yr argymhellion, diolchodd y Cynghorydd Eryl Williams i'r aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ynghylch y cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2016, ac i agor ysgol Wirfoddol a Reolir newydd Categori 2 ar y safleoedd presennol ar 1 Medi 2016;*

*(b) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Rhewl o 31 Awst 2017, gyda disgyblion yn trosglwyddo i naill ai Ysgol Pen Barras neu Stryd y Rhos i gyd-fynd ag agoriad yr adeiladau ysgol newydd, ac*

*(c) argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r achosion busnes a dyraniad cyfalaf ar gyfer*

1. *disodli darpariaeth bresennol Stryd y Rhos / Ysgol Pen Barras ar Safle Glasdir*
2. *adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn*
3. *adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal Llanfair a Phentrecelyn, yn amodol ar ganlyniad y cynigion trefniadaeth ysgolion.*

Ar y pwynt hwn (11.30am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## 6 CYLLIDEB 2015/16 (CYNIGION TERFYNOL - CAM 3)

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y cam olaf o raglen arbedion cyllidebol a mesurau eraill i'w hargymell i'r Cyngor er mwyn cyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys lefel gynyddol arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a'r defnydd o falansau cyffredinol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at ganlyniadau'r gweithdai cyllideb a oedd wedi llywio'r cynigion cyllideb ac amlinellodd y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf. Ymhelaethodd ar y cynigion ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd cyfartalog o 2.75% o ganlyniad i hynny yn lefel Treth y Cyngor, ynghyd â'r rhesymeg y tu ôl i'r cynnig i ddefnyddio balansau cyffredinol i ariannu'r gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Yng ngoleuni ymrwymiad yr aelodau i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol, argymhellwyd hefyd bod hyn yn cymryd blaenoriaeth mewn rowndiau gosod cyllideb yn y dyfodol.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafodwyd y materion canlynol -

- Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams bod posibilrwydd cryf y gellid sicrhau cyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer prosiectau adeiladu ysgolion arfaethedig yn ardal Rhuthun a fyddai'n rhyddhau cyllid i ddelio â phwysau cyllidebol eraill
- ni fyddai canlyniad yr ymgynghoriad ar ddyfodol gwasanaethau gofal cymdeithasol mewnol yn effeithio ar gyllideb 2015/16 ond roedd arbedion o'r broses honno yn ddyledus yn 2016/17 – roedd y proffil gwariant ar gyfer prosiectau gofal ychwanegol ar gyfer y dyfodol wedi'u disgrifio yng nghrynodeb y Cynllun Corfforaethol (Atodiad 4 i'r adroddiad)
- cyfeiriwyd at waith y Gweithgor Strategaeth Safleoedd Carafanau o ran y potensial i godi refeniw treth y cyngor ar gyfer blynyddoedd i ddod
- Teimlai'r Cynghorydd Eryl Williams y dylid cynnwys ffigurau dangosol ar gyfer derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o brosiectau ysgol wedi'u cwblhau, yn y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig o ran tryloywder – esboniwyd anhawster y dull hwn o ran symiau ac argaeledd y derbyniadau hynny, ac nid oedd llawer o deilyngdod mewn dyrannu derbyniadau ymlaen llaw a oedd wedi achosi problemau yn y gorffennol
- Ailadroddodd y Cynghorydd David Smith ei bryderon blaenorol bod cryn dipyn yn llai yn cael ei wario ar gynnal a chadw priffyrdd, na allai fod yn ddigon i gynnal ansawdd ffyrdd y sir neu gyflawni canlyniad y Cynllun Corfforaethol ar gyfer priffyrdd. Rhannodd Aelodau'r pryderon hynny a thrafodwyd y toriadau i'r gyllideb priffyrdd a cholli cyllid allanol, ac a ddylai priffyrdd gael blaenoriaeth ar gyfer arian mewn achos o lithriant yn y Cynllun Corfforaethol, neu argaeledd derbyniadau cyfalaf. Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at benderfyniad 10(c) yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet a gofynnodd bod ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Cyllideb i'r Cyngor
- cyfeiriwyd at resymau hanesyddol pam bod lefel treth y cyngor yn Sir Ddinbych yn un o'r uchaf yng Nghymru, a chytunwyd y byddai adroddiad y Gyllideb i'r Cyngor yn cynnwys cymhariaeth o lefelau treth y cyngor i ddangos safle Sir Ddinbych yn gyffredinol – esboniwyd hefyd y gwahanol ddulliau o alinio lefelau treth y cyngor rhwng Sir Ddinbych a Chonwy os symudwyd ymlaen ag uno.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at broses agored a thryloyw y gyllideb, a dywedodd fod addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu diogelu er gwaethaf yr

hinsawdd ariannol anodd, ac ailadroddodd ei ymrwymiad i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Teimlai hefyd ei bod yn bwysig ystyried effaith y toriadau yn y gyllideb ar berfformiad y Cyngor.

***PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn -*

*(a) cefnogi cynigion y gyllideb ar gyfer 2015/16 fel y gwelir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac argymell yn unol â hynny i'r Cyngor llawn;*

*(b) argymell i'r Cyngor y cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfartaledd o 2.75% yn 2015/16;*

*(c) argymell i'r Cyngor bod £500,000 o falansau cyffredinol yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gyllideb refeniw ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf;*

*(d) argymell i'r Cyngor bod y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn cymryd blaenoriaeth mewn rowndiau pennu cyllideb yn y dyfodol, a*

*(e) cynnwys cyfeiriad at yr ymatebion gan Aelodau'r Cynulliad yng Ngogledd Cymru ynghylch eu safle ar y gostyngiad mewn cyllid priffyrdd ar gyfer Sir Ddinbych, a dyrannu cyllid ar gyfer gwelliannau yr M4, yn adroddiad Cyllideb 2015/16 i'r Cyngor.*

## 7 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans adroddiad ar y cyd gyda'r Cynghorydd Huw Jones, yn manylu ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad o Gynlluniau Tref ac Ardal (CGP) a'r ffordd ymlaen. Roedd yn falch bod yr adolygiad wedi cefnogi'r egwyddor o CGP a derbyniodd ganfyddiadau'r adolygiad, gan dynnu sylw at yr angen am fframwaith gweithredol ac alinio CGP â strategaethau a chynlluniau eraill. Roedd manylion am waith y Gweithgor Hyrwyddwyr CGP wedi’u cynnwys o fewn yr adroddiad, ac ymhelaethodd y Cynghorydd Evans ar y sefyllfa ariannu bresennol a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dyraniadau arian yn y dyfodol. Adroddodd y Cynghorydd Huw Jones ar ei rôl fel Hyrwyddwr CGP a'r dull a gymerodd yn Ardal Dyffryn Dyfrdwy, a chynigiodd gynorthwyo Hyrwyddwyr CGP eraill i ddyblygu’r dull hwnnw o gefnogi'r broses CGP.

Nododd y Cabinet gasgliadau'r adolygiad a'r camau gweithredu dilynol mewn ymateb, gan gynnwys ailasesiad o brosiectau a oedd wedi arwain at argymhelliad i ddad-ymrwymo arian. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i roi sylwadau ar ddatblygu a chyflawni’r CGP yn eu hardaloedd penodol, a hefyd fe ystyriwyd y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer dyraniadau cyllid yn y dyfodol, gan gynnwys y meini prawf asesu prosiect.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y materion canlynol -

- mynegwyd amheuon ynghylch y diffyg pwysoli rhwng y gwahanol gategorïau o feini prawf asesu, yn enwedig o ran goblygiadau refeniw yn y dyfodol - cytunwyd yn bennaf bod y meini prawf yn cael eu diwygio i sicrhau y dylid ond symud ymlaen â phrosiectau niwtral o ran refeniw

- tra mynegwyd cefnogaeth ar gyfer y broses newydd, amlygwyd yr angen i sicrhau bod y prosiectau hynny sydd eisoes wedi'u cymeradwyo yn cael eu cyflawni, a chadarnhaodd swyddogion, i helpu i hwyluso'r broses, byddai prosiectau'n cael eu hymgorffori yn y cynlluniau busnes gwasanaeth perthnasol
- gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y broses o fonitro elfennau arian cyfatebol prosiectau penodol a'u tebygolrwydd o lwyddiant, ac awgrymwyd y gellid adlewyrchu'r elfen hon yn y meini prawf asesu - adroddodd y swyddogion am fesurau i wneud y gorau o gyllid allanol, ond cydnabuwyd bod rhywfaint o oddrychedd wrth sgorio'r elfen honno o'r prosiect, fodd bynnag, darparwyd sicrwydd bod y prosiectau yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson; cytunwyd hefyd y byddai'r Grŵp Hyrwyddwyr CGP yn cynnal adolygiad chwe misol o brosiectau ac os nad oedd hyder y byddai'r prosiect yn cael ei gyflawni, byddai'r cyllid yn cael ei ddad-ymrwymo ac ar gael ar gyfer prosiectau CPG eraill
- tynnwyd sylw at yr angen am fwy o ryngweithio rhwng Hyrwyddwyr CGP, Grwpiau Ardal yr Aelodau a Chynghorau Tref / Cymuned, a meithrin dull cyfannol o gyflwyno'r CGP - cyfeiriodd yr Arweinydd at y dull arfer gorau a gymerwyd gan y Cynghorydd Huw Jones fel Hyrwyddwr CGP, y gellid ei efelychu ar draws ardaloedd eraill, a'i ddisgwyliad bod y CGP yn eitem sefydlog ar raglen cyfarfodydd Grwpiau Ardal yr Aelodau a Chynghorau Tref / Cymuned, gyda Hyrwyddwyr CGP yn rhoi diweddariad ym mhob cyfarfod
- Adroddodd y Cynghorydd Meirick Davies am ei bryderon ynghylch dad-ymrwymo cyllid ar gyfer dau brosiect yn ward ei ardal, a'r angen am well cyfathrebiad yn hynny o beth, teimlodd hefyd y dylid darparu ffurflen benodol ar gyfer ceisiadau am gyllid prosiect - cadarnhaodd y swyddogion bod ffurflen yn cael ei pharatoi ar gyfer hyn, a fyddai'n cael ei chylchredeg cyn gynted ag y bo modd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a)* *cymeradwyo Datganiad Polisi Cynlluniau Tref ac Ardal;*

*(b)* *cymeradwyo asesiad Grŵp Hyrwyddwyr Cynlluniau Tref ac Ardal o brosiectau a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cabinet, ond sydd heb ddechrau eto;*

*(c)* *dad-ymrwymo'r dyraniad arian i'r prosiectau hynny a aseswyd fel rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf;*

*(d)* *cymeradwyo paratoi rhestr ddiwygiedig o brosiectau blaenoriaeth Cynllun Tref ac Ardal a'r broses arfaethedig ar gyfer dyrannu arian i'r prosiectau hyn fel y nodwyd yn yr adroddiad, a*

*(e)* *y dylai'r meini prawf asesu prosiectau a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad, sicrhau mai dim ond prosiectau yn y dyfodol sy'n niwtral o ran refeniw y dylid bwrw ymlaen â nhw.*

Pleidleisiodd y Cynghorydd Eryl Williams yn erbyn penderfyniad (e) uchod.

## 8 POLISI DYLEDION CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Polisi Dyledion Corfforaethol i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Esboniwyd y rhesymeg y tu ôl i'r polisi newydd er mwyn cael y cyfle gorau i adennill dyledion y Cyngor drwy ddarparu dull cyfannol o ymdrin â chwsmeriaid a oedd â sawl math o ddyled. Awgrymwyd cynllun peilot tri mis i ddechrau er mwyn asesu effeithiolrwydd y polisi cyn ei gyflwyno'n llawn. Cadarnhaodd Swyddogion os byddai’r polisi yn cael ei gymeradwyo, byddai'n parhau i gael ei weithredu pan fydd y bartneriaeth fasnachol yn cael ei ffurfio i ddarparu'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Dyledion Corfforaethol fel y dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad.*

**9 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni. Rhoddodd y crynodeb canlynol o sefyllfa ariannol y Cyngor-

- rhagwelwyd tanwariant net o £309,000 yn y gyllideb refeniw ar draws cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- cytunwyd ar arbedion o £7.1miliwn fel rhan o'r gyllideb ac ar hyn o bryd ystyrir bod 90% o’r rhain wedi eu cyflawni, gyda 10% ar waith
- amlygwyd y prif amrywiadau oddi wrth gyllidebau neu dargedau arbedion meysydd gwasanaeth unigol
- cafwyd diweddariad cyffredinol ynglŷn â’r Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a’r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys yr elfen Cynllun Corfforaethol).

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd a wnaed o ran strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.*

**10 RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i’w hystyried. Nododd yr Aelodau y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y newid arfaethedig i ddynodiad Ysgol Esgob Morgan a chynigion adolygiad ardal Rhuthun yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfodydd ym mis Mawrth a mis Mai yn y drefn honno.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 11 POLISI GWIRIO’N SEILIEDIG AR RISG CYNLLUNIAU LLEIHAU BUDD-DAL TAI A THRETH Y CYNGOR.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y Polisi Gwirio’n Seiliedig ar Risg diwygiedig i'r Cabinet ei gymeradwyo.

Nododd yr Aelodau'r newidiadau sydd eu hangen i'r polisi cyfredol mewn perthynas â hawliadau newydd a newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi ‘Gwirio’n Seiliedig ar Risg’ fel y dangosir yn Atodiad A i'r adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.35pm.